

**WE ARE
MACMILLAN.
CANCER SUPPORT**

**'SYLWAIS AR FAN
GENI NEWYDD Y TU
'ŌL I'M MHEN-GLIN.
DOEDD O DDIM YN
EDRYCH YN IAWN,
FELLY ES I WELD MEDDYG.'**

Philip



Mae pobl â chroen golau gyda brychni ac sy'n llosgi yn yr haul mewn mwy o berygl o gael canser y croen a elwir ym melanoma. Gallwch leihau eich risg drwy fod yn ofalus yn yr haul a pheidio â defnyddio gwely haul.

Mae dros 13,000 o bobl yn cael diagnosis o felanoma yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Hwn yw un o'r canserau mwyaf cyffredin ymysg pobl rhwng 15–34 oed, ond gallwch ei gael unrhyw bryd.

Gallai gwybod pa newidiadau i gadw golwg arnynt a phryd i fynd i weld meddyg wneud gwahaniaeth mawr. Peidiwch â mynd i boeni os yw'r symptomau hyn gennych - ewch i weld rhywun.

Ewch i weld eich meddyg ar unwaith os ydych chi'n sylwi ar fan geni newydd, unrhyw newidiadau i fan geni, neu newidiadau i'ch croen. Ewch i weld eich meddyg bob tro os oes gennych fan geni:

- sy'n newid o ran maint, siâp neu liw
- sy'n siâp rhyfedd
- gydag ymylon pigfain
- sy'n fwy nag un lliw neu arlliw o frown
- sy'n fwy llydan na 7mm (tua'r un maint â blaen pensil di-fin)
- sy'n goglais neu'n cosi
- sy'n gwaedu neu'n grystiog.

Dylech hefyd fynd i weld eich meddyg os ydych yn sylwi ar newidiadau ar eich ewinedd, fel:

- streipen dywyll, newydd ar hyd rhan o'r ewin
- rhywbeth yn tyfu o dan yr ewin.

Serch hynny, gall pethau eraill heblaw melanoma achosi'r symptomau hyn. Ond peidiwch â cheisio diagnosis'ch hun – ewch i weld eich meddyg. Os oes gennych chi felanoma, y cynharaf y caiff ei ganfod, y mwyaf tebygol y gellir ei drin yn llwyddiannus.

Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.

Os yw'n cael ei ganfod yn gynnar, fel arfer, gellir trin melanoma yn eithaf syml.

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**.